

| | |
|----------------------------------|---|
| Adroddiad ar gyfer | Y Cabinet |
| Dyddiad y cyfarfod | 12 Ebrill 2022 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol | Y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts / Geraint Davies |
| Awdur yr adroddiad | Lisa Walchester / James Curran |
| Teitl | Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn – cynnig ymgynghoriad ffurfiol ar Drefniadaeth Ysgol ac Achos Amlinellol Strategol drafft |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y mae'r adroddiad hwn ar gyfer ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru ac i ddechrau ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgol parthed y cynnig i gynyddu ei chapasiti o 116 i 220.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Er mwyn gallu derbyn y cymeradwyaethau sydd eu hangen ar gyfer symud ymlaen gyda phrosiect Ysgol Plas Brondyffryn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Cabinet wneud y canlynol:

3.1 Cymeradwyo mynd ati i ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig i gynyddu ei chapasiti o 116 i 220;

3.2 Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru i'w ystyried; a

3.3 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les, Atodiad 1, fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Y mae hwn yn brosiect Band B yn rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru – y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif, gynt. Amlinellwyd yr ymrwymiad i'r cynnig hwn mewn rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020. Yr oedd y rhaglen yn cynnwys dyraniad o £23.8m at ei gilydd ar gyfer y prosiect. Gan fod y prosiect hwn ar gyfer ysgol arbennig bydd Llywodraeth Cymru, os cymeradwyir yr Achosion Busnes perthnasol, yn darparu 75% o'r cyllid gyda'r 25% sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan Sir Ddinbych yn ôl ymrwymadau'r Cynllun Corfforaethol.
- 4.2. Y mae Ysgol Plas Brondyffryn yn ysgol 3-19 sy'n rhoi darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag awtistiaeth. Y cynnig yw dod â 3 o'r 4 safle presennol yn Ninbych ynghyd mewn adeilad pwrpasol a chynyddu capasiti'r ysgol fel y mae'r galw am leoedd arbenigol yn cynyddu.
- 4.3. Y safle arfaethedig ar gyfer yr adeilad newydd yw'r cae wrth ymyl Canolfan Hamdden Dinbych, a ddefnyddir gan Ysgol Uwchradd Dinbych ar hyn o bryd. Y mae'n eiddo i'r Awdurdod Lleol.
- 4.4. Y mae bob tro'n anodd penderfynu ar gapasiti mewn ysgol arbennig gan ei fod yn dibynnu ar anghenion disgyblion, sy'n gallu amrywio'n fawr. Capasiti enwol yr ysgol yw 116. Y mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion wedi eu cofrestru ar hyn o bryd (niferoedd Medi 2021). Y mae 10 disgybl ar restr aros yr ysgol ar hyn o bryd, gyda'r posibilrwydd y bydd 10 arall angen lle yn yr ysgol yn fuan.
- 4.5. Mae pandemig Covid wedi effeithio ar nifer yr asesiadau a wnaed. Ar hyn o bryd, mae 63 o ddisgyblion yn aros am asesiad. Yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol, byddai hyn yn dod â'r nifer o ddisgyblion sy'n gymwys i fynychu'r ysgol yn agos i 180. Nid yw effaith y pandemig wedi ei wireddu'n llwyr eto, fodd bynnag cred yr Awdurdod Lleol y bydd y galw am leoedd fel hyn yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf, ac felly mae capasiti arfaethedig o 220 i'r adeilad newydd, sydd i'w agor ddiwedd 2024, yn rhesymol.
- 4.6. Oherwydd y cynnydd mewn capasiti, y mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar drefniadaeth yr ysgol. Mae'r broses hon yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Ceir dogfen ddrafft yr ymgynghoriad ffurfiol yn Atodiad 2, a'r Asesiad drafft o'r Effaith ar

y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn Atodiad 3. Disgwylir i'r ymgynghoriad ddechrau ym mis Mai 2022.

- 4.7. Y mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i Achos Busnes y prosiect, sy'n dilyn y model 5 achos sydd wedi ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddull gweithredu Trysorlys ei Mawrhydi. Gofyn hyn am ddull gweithredu tri cham ar gyfer cymeradwyo, sef cynnydd yr Achos Amlinellol Strategol, yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn. Ystyrir yr Achos Strategol, yr Achos Economaidd, yr Achos Masnachol, yr Achos Ariannol a'r Achos Rheolaeth dros y prosiect ym mhob cam.
- 4.8. Y mae'r cam cyntaf, yr Achos Amlinellol Strategol drafft (AAS), wedi ei atodi yn Atodiad 4 ar gyfer ei ystyried a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y cynnig cyfredol yw cyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn ar y cyd i gael ei gymeradwyo yn yr hydref, a bydd hyn yn seiliedig ar gyflwyno cynigion ar gyfer cynllunio a darparu'r prisiadau diweddaraf.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Y mae'r prosiect yn cysylltu â Blaenoriaeth Gorfforaethol Pobl Ifanc yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022, sef parhau i foderneiddio ysgolion er mwyn gwella cyfleusterau ysgolion ac ychwanegu at ddysg disgyblion.
- 5.2. Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at wneud y Cyngor yn Ddi-garbon Net erbyn 2030. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod raid i bob prosiect adeiladu newydd o 1 Ionawr 2022 ymlaen ddangos y gall yr adeilad weithredu ar sail egwyddor ddi-garbon net. Y mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd yn cyllido 100% o hyn yn unol â'r meincnodau cyfredol y mae wedi eu nodi. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r achos busnes fel y mae'r cynllun yn datblygu a'r costau'n dod yn fwy eglur.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Bydd y gost o gynnal ymgynghoriad ar y cynigion yn weddol isel, ac yn golygu amser swyddogion yn bennaf. Gall fod ychydig o gostau argraffu ar gyfer y rhai sydd angen copi caled o'r ddogfen. Bydd y mwyafrif yn derbyn dolen i'r adroddiad drwy e-bost.

6.2. Y rhagolygon cyfredol ar gyfer gwariant cyfalaf ar y prosiect yw £23.8m. Bydd gofyn i Sir Ddinbych gyfrannu 25% o'r cyllid hwn, ac mae hyn wedi ei gynnwys ar hyn o bryd o fewn cyllid y Cynllun Corfforaethol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler ynghlwm Atodiad 1: Adeilad newydd – Ysgol Plas Brondyffryn.

7.2. Prif gasgliadau'r adroddiad yw:

7.2.1. Sgoriodd y cynnig 3 seren o 4, a 28/36,

7.2.2. Y mae'r cynnig yn ystyried dyfodol hirdymor yr ysgol fel mae'r galw am y mathau hyn o leoedd ysgolion yn cynyddu. Bydd yr adeilad newydd yn caniatáu i'r ysgol ddefnyddio'r lle yn hyblyg a dod â'r staff a'r disgyblion i gyd i un safle.

7.2.3. Bydd yr adeilad ei hun o gymorth i'r economi leol a bydd pwyslais cryf ar fanteision cymunedol.

7.2.4. Fel y mae'r prosiect wedi datblygu, edrychwyd eto ar yr asesiad a'i ddiweddarau. Ymgynghorwyd â'r ysgol a swyddogion addysg eraill.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd y prosiect ei roi gerbron y Grŵp Buddsoddi Strategol ar 15 Chwefror parthed Achos Amlinellol Strategol Llywodraeth Cymru, ac fe'i cymeradwywyd i fynd gerbron y Cabinet am gymeradwyaeth.

8.2. Cyflwynwyd y prosiect i Grŵp Ardal yr Aelodau, Dinbych ar 8 Chwefror 2022.

8.3. Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar 11 Mawrth 2022 lle roedd aelodau o Grŵp Ardal yr Aelodau, Dinbych ynghyd ag Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn bresennol, yn ogystal â swyddogion o'r adrannau priffyrdd, cynllunio, addysg, eiddo, Hamdden Sir Ddinbych, Wates Construction a'r ysgol. Roedd yr ymweliad yn gyfle i Gynghorwyr drafod y cynigion a deall sut y byddai'r safle yn gweithredu pe bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen. Cytunwyd y dylid darparu diweddariadau rheolaidd i Grŵp Ardal Aelodau Dinbych.

- 8.4. Y mae staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r prosiect, ac wedi bod ynghlwm â'r cyfarfodydd cynllunio gyda Wates.
- 8.5. Yn fewnol, y mae adrannau priffyrdd, cynllunio, hamdden a ThGCh wedi eu hysbysu am y prosiect, a chafwyd adborth ganddynt.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, ystyriwyd yr Achos Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ar 15 Chwefror 2022, ac fe'i cymeradwywyd i fynd gerbron y Cabinet i'w gymeradwyo. Y mae goblygiadau cyllido cyfalaf y rhaglen Band B wedi eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, er ei bod yn bwysig bod pob cynllun yn mynd drwy'r broses cymeradwyo cyfalaf. Bydd goblygiadau refeniw i'r prosiect hwn hefyd o ganlyniad i'r cynnydd yn niferoedd disgyblion Ysgolion Arbennig, gan fod eu hanghenion cyllido yn fwy. Y mae hyn yn debygol o arwain at bwysau yn y byrdymor i'r tymor canolig, tra dylem weld costau Lleoliad y Tu Allan i'r Sir yn lleihau'n arafach yn yr hirdymor nag yr amcanir ar hyn o bryd. Caiff goblygiadau refeniw eu cynnwys ym mhrosesau cyllideb y dyfodol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. Y mae angen i'r broses ymgynghori ffurfiol fynd rhagddi ochr yn ochr â chymeradwyo cynllun a chyllido'r adeilad newydd.
- 10.2. Y risg lliniaru yw y bydd y prif contractwr ar gyfer yr adeiladu ei hun yn cael ei benodi'n ffurfiol yn dilyn cwblhau'r broses ymgynghori ffurfiol. Felly, pe bai gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig yn y dyddiau cynnar, gallai'r Cyngor oedi cyn penodi prif contractwr fel bo'n briodol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

- 11.1. Y mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu'r gofyniad deddfwriaethol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ar gyfer ysgolion a datblygu cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion.